------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 27 Mawrth 2019

Amser y cyfarfod: 13.30

# 200(v6)

## 1 Cwestiynau i Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Dadl: Cyfnod 4 y Bil Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru)

(15 munud)

**NDM7022** Julie James (Gorllewin Abertawe)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.47:

Yn cymeradwyo Bil Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru)

Bil Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru)

## 4 Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth ac Asesiadau Poblogaeth (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2019

(15 munud)

**NDM7015** Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Trefniadau Partneriaeth ac Asesiadau Poblogaeth (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2019 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 05 Mawrth 2019.

**Dogfen Ategol**
Memorandwm Esboniadol
Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

## 5 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

**Caiff y cwestiwn hwn ei ateb gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd:**

Gofyn i'r Prif Weinidog

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad yn ymateb i benderfyniad yr Uchel Lys heddiw ynghylch yr ymchwiliad o dan arweiniad Cwnsler y Frenhines i ddiswyddo Carl Sargeant?

## 6 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## 7 Dadl Aelodau o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) - Rygbi

(60 munud)

**NDM6990** Andrew R.T. Davies (Canol De Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi:

a) pwysigrwydd rygbi i bobl Cymru, y manteision economaidd sy'n gysylltiedig â'r gêm, a'i le arbennig yng ngwead cymunedau ledled ein cenedl;

b) yr heriau ariannol a strwythurol sy'n wynebu rygbi yng Nghymru ar hyn o bryd;

c) goblygiadau posibl 'Project Reset' Undeb Rygbi Cymru ar rygbi proffesiynol a'r strwythur rhanbarthol yng Nghymru, ac ar y gwasanaethau lleol a chymunedol ychwanegol a ddarperir ar hyn o bryd gan y rhanbarthau; a

d) y pryderon cryf a fynegwyd gan gefnogwyr ynghylch y posibilrwydd o uno rhanbarthau'r Gweilch a'r Sgarlets.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gydag Undeb Rygbi Cymru a phartneriaid rhanbarthol/clwb i ddiogelu rygbi yng Nghymru a llunio model cynaliadwy tymor hir ar gyfer y gêm ar lefel ranbarthol ac ar lawr gwlad.

**Cyd-gyflwynwyr**

Bethan Sayed (Gorllewin De Cymru)
Huw Irranca-Davies (Ogwr)

**Cefnogwyr**

Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru)
David Rees (Aberafan)
Hefin David (Caerffili)
Janet Finch-Saunders (Aberconwy)
Jayne Bryant (Gorllewin Casnewydd)
Lynne Neagle (Torfaen)
Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru)
Mike Hedges (Dwyrain Abertawe)
Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru)
Suzy Davies (Gorllewin De Cymru)

## 8 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig - Ariannu Llywodraeth Leol

(60 munud)

**NDM7018** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod y rôl bwysig y mae awdurdodau lleol yn ei chwarae wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru.

2. Yn cydnabod yr heriau ariannol y mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn eu hwynebu ar hyn o bryd.

3. Yn nodi bod trethdalwyr Cymru, ar hyn o bryd, yn talu cyfran uwch o'u hincwm ar y dreth gyngor nag yn Lloegr na'r Alban.

4. Yn gresynu bod

a) lefel y dreth gyngor yng Nghymru wedi treblu ers sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym 1999; a

b) lefel y dreth gyngor yng Nghymru wedi cynyddu ar gyfradd gyflymach nag yn Lloegr a'r Alban.

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gomisiynu adolygiad annibynnol o fformiwla ariannu llywodraeth leol Cymru.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 – Rebecca Evans (Gwyr)**

Dileu popeth ar ôl pwynt 2 a rhoi yn ei le:

Yn nodi bod lefelau treth gyngor ar gyfer eiddo band D yng Nghymru ar gyfartaledd yn is na'r rhai yn Lloegr.

Yn cydnabod bod y fformiwla gyllido ar gyfer awdurdodau lleol Cymru yn cael ei hadolygu yn flynyddol drwy bartneriaeth rhwng llywodraeth leol Cymru a Llywodraeth Cymru.

*[Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliannau 2 a 3 eu dad-ddethol]*

**Gwelliant 2 – Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)**

Dileu pwynt 4.

**Gwelliant 3 – Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)**

Dileu pwynt 5 a rhoi yn ei le:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymgynghori ar setliad ariannu tymor hir ar gyfer llywodraeth leol a fyddai'n caniatáu ar gyfer cynllunio tymor hwy ar gyfer llywodraeth leol.

**Gwelliant 4 – Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod fod y dreth gyngor wedi cynyddu oherwydd llymder a weithredwyd gan San Steffan a diffyg blaenoriaeth ar gyfer llywodraeth leol gan Lywodraeth Cymru wrth lunio'r gyllideb.

**Gwelliant 5 – Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod y cysylltiad pwysig rhwng y GIG a llywodraeth leol wrth ddarparu gwasanaethau.

**Gwelliant 6 – Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i leihau nifer y grantiau neilltuedig er mwyn caniatáu mwy o hyblygrwydd wrth i lywodraeth leol wario grantiau.

## 9 Dadl Plaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig – Yr Undeb Ewropeaidd

(60 munud)

**NDM7019 Gareth Bennett (Canol De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi bod y Cytuniad ar yr Undeb Ewropeaidd yn ymrwymo aelod-wladwriaethau i symud tuag at uno agosach fyth ymhlith pobl Ewrop.

2. Yn gresynu bod yr UE, ers 1973, wedi cymryd pŵer oddi ar seneddau cenedlaethol etholedig, ac wedi ei ganoli yn nwylo sefydliadau anetholedig yr UE.

3. Yn nodi bod fetoau cenedlaethol yn cael eu herydu wrth ffafrio pleidlais y mwyafrif yng Nghyngor y Gweinidogion, mewn nifer gynyddol o feysydd polisi, ac y bydd y duedd hon yn parhau am gyfnod amhenodol.

4. Yn credu bod ansicrwydd parhaus y trafodaethau rhwng yr UE a'r Deyrnas Unedig yn creu perygl y bydd y Deyrnas Unedig yn aros o fewn yr Undeb Ewropeaidd, yn groes i ewyllys penderfyniad y pobl fel y mynegwyd yng nghanlyniad refferendwm 2016.

5. Yn credu bod y prosiect Ewropeaidd yn rym ddi-baid, yn cael ei hyrwyddo gan sefydliadau parhaol yr UE, yn arbennig y Comisiwn, a bod y risgiau o aros o fewn yr UE yn cynnwys dod yn ddarostyngedig i fyddin Ewropeaidd, rhagor o integreiddio economaidd ac erydu sofraniaeth y Deyrnas Unedig.

6. Yn galw ar Lywodraeth y DU i ganolbwyntio ei holl ymdrechion ar ddod i gytundeb masnach rydd gyda'r UE mor gyflym â phosibl, er mwyn hwyluso'r broses o ymadael yn llawn a dirwystr â'r Undeb Ewropeaidd.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 – Darren Millar (Gorllewin Clwyd)**

Dileu'r cyfan a rhoi yn ei le:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi bod Cymru wedi pleidleisio i adael yr Undeb Ewropeaidd yn y refferendwm ym mis Mehefin 2016.

2. Yn credu bod yn rhaid parchu canlyniad y refferendwm ar aelodaeth y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd ac y dylid gweithredu'r penderfyniad i ymadael.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i barhau i weithio gyda Llywodraeth y DU wrth i'r Deyrnas Unedig ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.

*[Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliannau 2 a 3 eu dad-ddethol]*

**Gwelliant 2 –** Rebecca Evans (Gwyr)

Dileu popeth ar ôl "Cynulliad Cenedlaethol Cymru" a rhoi yn ei le:

1. Yn nodi bod yr Undeb Ewropeaidd a'i ragflaenydd wedi bod yn rym cadarnhaol dros heddwch a sefydlogrwydd parhaus yn Ewrop ers ei sefydlu.

2. Yn ailddatgan ei gefnogaeth i'r safbwynt a gymeradwywyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru mewn pleidleisiau olynol ar 4 Rhagfyr 2018, 30 Ionawr 2019 a 5 Mawrth 2019.

3. Yn credu beth bynnag fydd canlyniad y negodiadau presennol, y dylai'r Deyrnas Unedig geisio cynnal y cysylltiadau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol agosaf posibl rhwng y DU a'r 27 gwladwriaeth arall sy'n rhan o'r UE.

*[Os derbynnir gwelliant 2, caiff gwelliant 3 ei ddad-ddethol]*

**Gwelliant 3 –** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi bod y Cytundeb Ymadael a drafodwyd rhwng Llywodraeth y DU a'r Undeb Ewropeaidd wedi'i wrthod dro ar ôl tro gan Senedd y DU a Chynulliad Cenedlaethol Cymru.

2. Yn nodi bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi pleidleisio ar 30 Ionawr 2019 y 'dylid dechrau gweithio ar unwaith i baratoi am bleidlais gyhoeddus'.

3. Yn credu y dylid ymestyn Erthygl 50 am hyd at 21 mis fel y gellir cynnal pleidlais y bobl i alluogi'r bobl i benderfynu a ddylid cymeradwyo'r Cytundeb Ymadael a drafodwyd neu aros yn yr UE.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i wneud datganiad i'r Cynulliad yn nodi'r camau y mae wedi'u cymryd i baratoi ar gyfer pleidlais y bobl a pha sylwadau y mae wedi'u gwneud i Lywodraeth y DU i'r perwyl hwn.

## 10 Cyfnod pleidleisio

## 11 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM7016** Neil McEvoy (Canol De Cymru)

Gwasanaethau plant: amser am newid.

Dadl ar y newidiadau sydd eu hangen i sicrhau bod gwasanaethau plant yn diogelu plant Cymru yn y ffordd orau.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 2 Ebrill 2019

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 20/03/2019 i'w hateb ar 27/03/2019

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

**Joyce Watson** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

**1** OAQ53661

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am faint o iawndal ariannol sydd wedi'i roi i bysgotwyr Cymru dros y pum mlynedd diwethaf o dan gronfa'r môr a physgodfeydd Ewrop ar gyfer potiau pysgota newydd?

**Andrew R.T. Davies** *Canol De Cymru*

**2** OAQ53653

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog amlinellu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer dyfodol gwarchodfeydd natur cenedlaethol yng Nghymru?

**Dai Lloyd** *Gorllewin De Cymru*

**3** OAQ53658

**(e)**

Pa drafodaethau diweddar y mae'r Gweinidog wedi'u cael ynghylch buddiannau amgylcheddol posibl datblygu morlyn llanw Bae Abertawe?

**Andrew R.T. Davies** *Canol De Cymru*

**4** OAQ53652

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog amlinellu sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu creu sector coedwigaeth sy'n economaidd lewyrchus yng Nghymru?

**Huw Irranca-Davies** *Ogwr*

**5** OAQ53656

**(e)**

Pa fesurau y bydd y Gweinidog yn eu cymryd i hybu'r safonau amgylcheddol uchaf ar ôl Brexit?

**John Griffiths** *Dwyrain Casnewydd*

**6** OAQ53648

**(e)**

Sut y bydd cynllun gweithredu adfer natur arfaethedig Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r gwaith o gyflwyno rheoliadau strategaeth forol y DU?

**Mark Isherwood** *Gogledd Cymru*

**7** OAQ53645

**(e)**

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn helpu i warchod rhywogaethau sydd o dan fygythiad yng Nghymru?

**Mike Hedges** *Dwyrain Abertawe*

**8** OAQ53646

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effaith rhywogaethau planhigion nad ydynt yn gynhenid yng Nghymru?

**Russell George** *Sir Drefaldwyn*

**9** OAQ53657

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am reoli lefelau dŵr yng nghronfa ddŵr Clywedog a Llyn Efyrnwy?

**Rhun ap Iorwerth** *Ynys Môn*

**10** OAQ53642

**(w)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ymgynghoriad presennol y corff Radioactive Waste Management o ran lleoliad ar gyfer cyfleuster gwaredu daearegol?

**Leanne Wood** *Rhondda*

**11** OAQ53667

**(e)**

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn lleihau allyriadau carbon?

**Paul Davies** *Preseli Sir Benfro*

**12** OAQ53641

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cymru'n cefnogi'r diwydiant pysgota?

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

**13** OAQ53640

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y diwydiant pysgod cregyn yng Nghymru?

## Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

**Helen Mary Jones** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

**1** OAQ53663

**(e)**

Pa adnoddau sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru i hybu amrywiaeth mewn llywodraeth leol?

**Leanne Wood** *Rhondda*

**2** OAQ53666

**(e)**

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn diwallu'r angen am dai cymdeithasol?

**Caroline Jones** *Gorllewin De Cymru*

**3** OAQ53669

**(e)**

Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod darpariaeth tai yng Nghymru yn sicrhau mynediad i berchnogion tai a thenantiaid i ardd neu fan gwyrdd y tu allan?

**Jenny Rathbone** *Canol Caerdydd*

**4** OAQ53675

**(e)**

Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i ddiwygio Adran 21 o Ddeddf Tai 1988 i roi tenantiaethau mwy sicr i bobl sy'n rhentu cartrefi yn breifat?

**Lynne Neagle** *Torfaen*

**5** OAQ53674

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y pwysau ariannu mewn llywodraeth leol?

**Andrew R.T. Davies** *Canol De Cymru*

**6** OAQ53655

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr asesiad effaith amgylcheddol mewn cysylltiad â llosgydd y Barri?

**Jack Sargeant** *Alun a Glannau Dyfrdwy*

**7** OAQ53671

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ymdrechion i wella cynhwysiant digidol?

**Darren Millar** *Gorllewin Clwyd*

8 OAQ53651

**(e)**

Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o ddigonolrwydd y cyllid ar gyfer awdurdodau lleol yng ngogledd Cymru?

**Llyr Gruffydd** *Gogledd Cymru*

9 OAQ53677

**(w)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y ddarpariaeth tai ar gyfer pobl sy'n dod yn ddi-gartref yng Nghymru?

**Jack Sargeant** *Alun a Glannau Dyfrdwy*

10 OAQ53670

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i fynd i'r afael â digartrefedd yng ngogledd Cymru?

**Sian Gwenllian** *Arfon*

11 OAQ53673

**(w)**

Pa ddefnydd y gellir ei wneud o'r drefn gynllunio i reoli'r cynnydd mewn ail gartrefi yng Nghymru?

**Vikki Howells** *Cwm Cynon*

12 OAQ53643

**(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda'r Gweinidog Cyllid ynghylch arferion caffael awdurdodau lleol?

**Delyth Jewell** *Dwyrain De Cymru*

13 OAQ53678

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y camau a gymerir i fynd i'r afael â digartrefedd yn Nwyrain De Cymru?